’YDYCH CHI’N WIR WNEUD JEHOFAH YN GADERNID AC YN AMDDIFFYNFA I CHI?

Nodyn i’r siaradwr:
Bydd Jehofah yn gadernid inni os gwnawn ef yn hynny ’nawr. Mae hyn yn golygu ufuddhau i’w ddeddfau, ei roi e’n flaenaf ym mhob agwedd ar fywyd, a dibynnu arno pan wynebir ni â phroblemau. Paratowch ’nawr yn y modd hwn i oroesi’r gorthrymder mawr

’FYDD JEHOFAH YN GADERNID I CHI YN YSTOD YR ADFYD SYDD AR DDOD? (10 mun.)

Ers amser maith mae pobl Jehofah wedi cytuno â’r teimladau sydd yn 2 Samuel 22:2, 3 (Eu darllen)

Mae pobl Dduw yn ei ystyried yn gadernid iddynt, ond a ydym ni fel unigolion?

Mae’r Beibl yn ein galluogi ni i ragweld cyfnod adfydus iawn

Cyn i’r dinistr hwnnw ddod, gallwn ddisgwyl cri yn cyhoeddi tangnefedd a diogelwch (1Thes 5:1-5; *g*89 12/8 24-7)

Mae’n amlwg y bydd y gorthrymder mawr yn cychwyn gyda distrywio gau grefydd (Dat 17:15-18; *re* 256)

Bydd gwir addolwyr yn goroesi ond bydd ymosod arnynt gan luoedd daearol Satan, Gog o Magog (Esec 38:10-16)

I derfynu, bydd Jehofah yn difa gweddill y gyfundrefn ddrwg ym mrwydr Armagedon (Dat 16:16; 19:11-21)

Bydd y frwydr honno yn rhyddhau’r ffordd i ail-sefydlu paradwys ar y ddaear (*w*86 10/1 20)

Dylai pob un ohonom ofyn: ‘Sut bydd y dyfodol yn effeithio arnaf fi?’

’Fedr neb gymryd yn ganiataol y bydd yn mynd trwy’r cyfnod hwn yn hawdd heb broblemau na threialon

Bydd llawer yn ceisio eu hamddiffyn gan gyfundrefnau dynol (Darllen Datguddiad 6:15-17) (*re* 112)

’Fyddwn ni’n medru “sefyll” yn y dydd hwnnw? Pa gadernid fydd gennym ac a fydd ei angen arnom?

Gall Jehofah fod yn gadernid inni, ond a ydym ’nawr yn ei wneud yn hynny? (Darllen Nahum 1:6, 7)

Mae e’n amddiffynfa i’r “rhai sy’n ymddiried ynddo”; mae hyn yn profi fod angen ymdrech a sylw

Hyd yn oed os ydym wedi gwneud Jehofah yn amddiffynfa inni, da gofyn: ‘’Fedra’ i ’nawr ddibynnu mwy a mwy arno yn amddiffynfa i mi fel y bydd e wedyn yn sicr o barhau yn amddiffynfa i mi?’

Gadewch inni ’nawr ystyried rhai agweddau ar fywyd a meddwl bob dydd i’n helpu ni i weld a ydym yn ei wneud yn amddiffynfa inni

Bydd hyn hefyd yn amlygu sut medrem ni wella

GWNEWCH JEHOFAH YN NODDFA AC YN GADERNID I CHI ’NAWR (20 mun.)

’Dyw cydnabod Jehofah yn gadernid, neu’n dŵr, ddim wedi’i gyfyngu i gyfnodau o drallod (Darllen Diarhebion 18:10)

Dylai enw Jehofah fod yn gadernid pan fo rhywun yn wynebu perygl, ond mae hyn hefyd yn gymwys ar gyfer bywyd bob dydd

Gan fod ei “enw” yn ymwneud â’i fwriadau, ’ydych chi’n caniatáu i’w fwriadau ddylanwadu ar yr hyn sy flaenaf yn eich bywyd?

Mae gwneud Jehofah yn gadernid inni yn golygu bod yn ddarostyngedig i’w farnedigaethau a’i arweiniad

Mae enw Duw yn tynnu sylw at gyflawni’i fwriadau (*na* 6)

Fe lwyddwn wrth harmoneiddio’n bywyd yn llwyr â’i ewyllys a’i fwriadau

Ni fyddai yn gadernid inni pe tueddem i anwybyddu ei egwyddorion moesol a’i ddeddfau

Rhaid bod yn foesol uniawn er mwyn cael Duw yn noddfa (Darllen Diarhebion 10:29)

Mae ffordd yr ARGLWYDD yn cael ei chyferbynnu â ‘gwneud drwg’

Mae ymddygiad anfoesol, megis godineb, puteindra, a gwrywgydiaeth, yn amlwg anghywir

Rhaid i’r rhai sy’n gwneud Jehofah yn gadernid iddynt osgoi pob ymddygiad sy’n niweidio eraill (Col 3:5)

Ni ddylai Cristion di-briod ystyried canlyn rhywun dim ond er mwyn difyrrwch neu esgus am gyffro (*yp* pennod 29)

Gall cymdeithasu’n agos â’r rhyw arall arwain at gusanu a byseddu

Mae’r Beibl yn rhybuddio rhag “amhurdeb” (1Thes 4:7; *yy* 152-4; *yp* 254)

Ai ffordd yr ARGLWYDD yw’r fath amhurdeb? ’Fedrai unigolyn fod yn gyfrannog ohono a pharhau i gael ei ystyried yn un sydd â Duw yn gadernid iddo neu iddi?

Byddai Cristion priod oedd yn gwneud Jehofah yn gadernid iddo yn ymwrthod ag unrhyw duedd i fflyrtian, bwriadol geisio denu rhywun nad yw’n gymar iddo (*w*68 476-7)

Yn y byd, efallai yr edrychir ar ddyn yn fflyrtian neu ferch yn hoedenna fel pethau diniwed

Yn aml mae ymddygiad o’r fath yn arwain at frifo’r person arall neu frifo cymar

Mae gwir wneud Jehofah yn gadernid yn cynnwys ymwrthod â chael eich denu gan ryw anghyfreithlon

Ymhlith y rhai sy’n mynychu eglwysi ac yn honni bod yn foesol ceir unigolion sy’n ystyried pornograffi yn rhywbeth cyffrous (*g*86 12/22 3-4, 7)

A fedrid dweud bod diddordeb o’r fath yn ‘rhoi i farwolaeth y rhannau hynny’ ohonom sy’n ymwneud ag amhurdeb a nwyd?

Gall pob un ohonom ofyn: ‘Yn yr agweddau hyn, ’ydw i’n wir wneud Jehofah yn gadernid imi? ’Ydw i’n mowldio fy ffordd o feddwl, fy chwantau, a’m gweithredoedd yn ôl ffordd yr ARGLWYDD, fy nghadernid?’

Cawn fudd o beidio â chaniatáu i fywyd droi o gwmpas meddu ar foethusau (*w*87 2/1 4-5)

Wrth i bwysau economaidd gynyddu, gall maes cyflogaeth fod yn llinyn mesur i benderfynu ai Duw ai cyfoeth yw'ch cadernid (Diar 18:11)

Daw budd i'r cyflogedig sy'n gwneud enw Duw (a'i fwriadau) yn gadernid iddynt

'Dydyn' nhw ddim yn cystadlu â thactegau ffyrnig er mwyn ennill neu sicrhau swyddi o fri; bodloni gweithio'n galed â'u dwylo (Darllen 1 Thesaloniaid 4:11) (*w*88 8/15 18)

Mae'r rhai sydd â Jehofah yn gadernid iddynt ac yn derbyn y cyngor hwn yn annhebygol o gael eu diswyddo'n fuan ond cânt eu gwerthfawrogi (*hp* 51-4; *w*84 4/1 27; *yb*89 51 ¶3)

Dylai gwneud Jehofah yn gadernid i chi a dilyn ei gyngor effeithio ar yr hyn a ddaw yn flaenaf hyd yn oed mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch gweithgareddau bob dydd (Darllen 1 Corinthiaid 7:29-31)

Nid yw cyngor Paul yn golygu dibriodrwydd mewn priodas neu adael cymar i wneud y gwaith pregethu

Ni ddylai Cristion ymroi mor llwyr i briodas fel yr anwybyddir pethau'r Deyrnas (*w*75 351; *it*-2 343 ¶9)

Y tebyg yw eich bod yn 'nabod pobl sy'n anwybyddu popeth bron i sicrhau priodas a bywyd cartre' hapus

Ai dyma'r rhagolwg i berson sy'n gwneud Jehofah yn gadernid iddo?

Mae geiriau Paul yn ymwneud hefyd ag agweddau eraill o fywyd bob dydd, y medrwn ein harchwilio'n hunain ynglŷn â nhw

Cynghorir ni i beidio ag ymgolli'n llwyr mewn gofidiau, pleserau, neu adloniant

'Ydym ni'n cyfeirio agweddau o'n bywyd yn ôl y cyngor hwn, gan wneud Jehofah yn gadernid inni?

Felly fe ddylai fod gennych gonsýrn personol i wneud Jehofah yn gadernid i chi; dylid gwneud hynny 'nawr

Gofynnwch i chi'ch hun: ''Fedra' i ddweud yn onest fy mod yn gwneud Jehofah yn gadernid imi yn yr agweddau hyn?'

Beth am agweddau eraill—ei gyngor ynglŷn â rheoli tymer, arferion yfed neu fwyta? bod yn garedig a maddeugar at eraill? cefnogi henuriaid y gynulleidfa?

Os gwelwn le i wella, beth am i ni geisio arweiniad Duw 'nawr a'i ddilyn yn llawnach

Po fwyaf yr ymostyngwn i'w farnedigaethau a'i arweiniad, mwyaf y gwnawn ei enw'n dŵr inni

YN WYNEB ANAWSTERAU, DIBYNNWCH AR JEHOFAH (10 mun.)

'Rydym yn gwneud Duw yn gadernid inni drwy ddilyn ei arweiniad yn ein bywyd bob dydd, normal, ond mae e'n gadernid arbennig yn amser trallod (Darllen Salm 18:2, 24-27)

Os poenir chi gan iechyd neu nerth sy'n diffygio, gallwch droi at eich Cadernid

Gwasanaethodd Paul a Timotheus Dduw yn deyrngar ac eto profi gwaeledd a phroblemau corfforol (2Cor 12:7; 1Tim 5:23; *it*-2 589 ¶3)

Er na iachaodd mohonyn' nhw'n wyrthiol, fe helpodd Duw Timotheus a Paul i fwrw ymlaen a llwyddo (Phil 4:13)

O wynebu anhwylderau corfforol, gallwn sicrhau help gan ein Cadernid

Drwy ei ysbryd mae Duw yn fodlon ac yn medru cynnal y rhai sy'n pwyso arno

Gofynnwch i chi'ch hun: 'Os daw gwaeledd neu gyfyngiadau corfforol i'm rhan, ydi hyn yn fy sbarduno i i wneud Jehofah yn gadernid imi, â'm llygaid ar ei wobr dragwyddol?' (2Cor 4:16-18)

Yn ystod anawsterau a achosir gan amherffeithrwydd eraill, 'wnewch chi Dduw yn gadernid i chi?

Poenid Paul gan "archapostolion," ychydig ddynion yn y gynulleidfa yn gwrthwynebu ei ymdrechion (2Cor 10:10; 11:5; 12:11, 12)

Efallai y bydd i rywun yn eich cynulleidfa droi ymaith neu achosi problemau; 'wnewch chi Dduw yn gadernid i chi, gan hyderu y bydd E yn trin pethau yn Ei ffordd a'i amser Ei hun?

Yn ystod erlid llym, 'nawr neu yn y dyfodol, parhewch i wneud Duw yn gadernid i chi

Ynglŷn â'r math hwn o drallod fe wyddai Dafydd y byddai Jehofah yn gadernid iddo (Salm 18, uwchysgrifen)

Ni cheisiodd e gystadlu o ran nerth â'i erlidwyr ond dibynnu ar Dduw (Salm 18:2; *w*80 12/1 16)

Yn hytrach na llochesu yn ein nerth ein hunain, dylem ddibynnu ar Jehofah

Golyga ymddiried yn Nuw yn gadernid inni wybod y bydd yn gyfiawn ad-dalu erlidwyr a gwobrwyo'r rhai a erlidir

Mae Duw yn ein sicrhau ni o ollyngdod yn natguddio Iesu (2Thes 1:4-8)

Nes digwydd hynny, mae Duw yn gallu nerthu pawb sy'n ei wneud yn gadernid iddynt

NI FYDD JEHOFAH YN GADAEL Y RHAI SY'N EI WNEUD YN GADERNID IDDYNT (5 mun.)

'Fydd y rhai sy'n gwneud Jehofah yn gadernid iddynt ddim yn profi colled dragwyddol (Salm 116:15; *ka* 407-8)

'Fedr y sawl sy'n ymddiried mewn golud, swydd, priodas, pleserau, neu gynlluniau dynion ddim osgoi angau na'i wyrdroi (Salm 49:6, 7)

Mae'r salmydd yn annog ymddiried yn Jehofah (Darllen Salm 62:7, 8) (*w*72 331 ¶20)

Mae'n gallu diwallu ein hanghenion beunyddiol 'nawr ac mae'n ein sicrhau ni am sail gobaith bywyd tragwyddol ym Mharadwys

Ef yn unig sy'n medru gwarantu gwaredigaeth dragwyddol i'r sawl sy'n ffyddlon hyd angau

Os gwnewch chi Jehofah yn wir gadernid i chi 'nawr, fe fyddwch mewn sefyllfa i lawenhau am byth (Salm 5:11, 12)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodir ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)